**LC1109**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Dileu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005**

Diben y Rheoliadau yma yw rhagnodi'r ffurflenni a'r hysbysiadau at ddibenion adrannau 118B a 119B o Ddeddf Priffyrdd 1980 a gafodd eu mewnosod gan adran 57 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac Atodlen 6 iddi. Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer gweithdrefn gorchmynion dileu arbennig a gorchmynion gwyro arbennig.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

**Sylwadau**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi llwyddo hefyd i dynnu sylw'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau at nifer fach o bwyntiau fformadu y byddai'n addas eu cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Mehefin 2005**